Sant Swithin: c.800–862

Bwrw glaw am ddeugain niwrnod

Parchu dymuniadau eraill / gostyngeiddrwydd

"Dydw i ddim eisiau cael fy nghladdu yn yr Eglwys Gadeiriol. Mae'n well gen i, pan ddaw y dydd, gael fy nghladdu yn y fynwent y tu allan. Byddaf yn teimlo wedyn fy mod yn un â'r bobl."

Roedd Esgob Caer-wynt wedi trafod hyn droeon. Ond roedd awdurdodau'r eglwys yn bendant mai yn y Gadeirlan roedd gwŷr amlwg fel fo i gael eu claddu.

"Cofiwch chi, pan fydda i farw, yn y fynwent yng nghanol y bobl gyffredin rydw i eisiau cael fy nghladdu."

Flynyddoedd wedyn, bu farw'r Esgob Swithin. Aethpwyd ati i'w gladdu yn y fynwent yn ôl ei ddymuniad. Ond roedd yr Esgob newydd yn filain iawn.

"Nid yn y fynwent yng nghanol y bobl dlawd y mae'r Esgob i gael ei gladdu. Yn y Gadeirlan mae lle pobl fel hyn. Cofiwch chi, roedd yn Esgob Caer-wynt!"

Doedd dim troi ar yr Esgob newydd.

"Fe fydd rhaid i ni godi ei gorff o'r bedd yn y fynwent a'i gladdu yn yr Eglwys Gadeiriol." Dyna oedd ei orchymyn.

Felly, aethpwyd ati i godi corff yr Esgob i'w gladdu mewn bedd arbennig. Ond ar y diwrnod y penderfynwyd mynd ati i godi'r corff fe ddechreuodd fwrw glaw yn drwm.

"Fe arhoswn ni tan 'fory," meddai'r gweithwyr.

Ond y diwrnod wedyn roedd hi'n bwrw'n waeth o lawer. Bwrw at eich croen!

"Mi fydd wedi stopio erbyn 'fory," meddai un o'r gweithwyr.

Ond y diwrnod wedyn roedd hi'n waeth o lawer. Roedd y glaw fel llygaid ych ar y llawr.

"Yfory," meddai'r gweithwyr.

Ond roedd hi'n dal i fwrw glaw. Roedd y gweithwyr yn cadw cofnod o'r dyddiau y bu hi'n bwrw glaw: 35, 36, 37, 38, 39 o ddyddiau.

"Pa bryd mae hi am stopio?" oedd cwestiwn pawb.

Meddai un o'r gweithwyr, "Mi wnaiff hi stopio pan fyddwn ni'n ailfeddwl am symud corff yr Esgob o'r fynwent. Rydyn ni yn mynd yn groes i'w ddymuniad. Fel y cofiwch, ei ddymuniad oedd

cael ei gladdu efo'r bobl gyffredin yn y fynwent."

"Rwyt ti'n iawn," meddai un arall o'r gweithwyr. "Mae'n rhaid i ni geisio gwneud yr hyn roedd Esgob Swithin eisiau."

Aethant i weld yr Esgob newydd.

"Efallai eich bod yn iawn," meddai yntau. "Mae'n rhaid i ni ailfeddwl am hyn i gyd. Gwell fyddai gadael y corff yn y bedd yn y fynwent."

Ac felly y bu. Ar y deugeinfed diwrnod fe beidiodd y glaw. Yn araf deg daeth yr haul allan.

"Roeddan ni eisiau symud ei gorff yn erbyn ei ddymuniad," meddai'r Esgob newydd. "Dyna pam y gwnaeth hi fwrw am bron i ddeugain niwrnod. Gadawn ei gorff i orwedd efo'r bobl gyffredin yn y fynwent."

Bwriwch fod dyn â modrwy aur a dillad crand yn dod i'r cwrdd, a bod dyn tlawd mewn dillad carpiog yn dod hefyd. A bwriwch eich bod chwi'n talu sylw i'r un sy'n gwisgo dillad crand ac yn dweud wrtho ef, "Eisteddwch yma, os gwelwch yn dda;" ond eich bod yn dweud wrth y dyn tlawd, "Saf di ar dy draed fan draw..." Onid ydych yn anghyson eich agwedd..." Iago 2:1

Ein Tad,
beth ydi dy ddymuniad Di?
Beth wyt ti eisiau i mi ei wneud?
Trwy fy mywyd helpa fi i
barchu dy ddymuniadau Di,
bob tro.
Amen.

Pa mor bwysig ydi parchu dymuniadau pobl eraill?
Beth am barchu dymuniadau Duw?

Sant Swithin: c.800–862